### *Gweddi*



Arglwydd, gosodaist amser yn llwyfan i'th weithgarwch di.

Rhoddaist i ni amser, yn ddyddiau, wythnosau, misoedd a blynyddoedd.

Rhoddaist i ni ddoniau amrywiol.

Ymddiriedaist i ni Newyddion Da i'w rhannu drwy gyfrwng y doniau a roddaist i ni.

Cynorthwya ni, felly, i iawn ystyried ein defnydd o amser a doniau fel y bydd ein bywyd cyfan yn dyrchafu dy enw.

Amen.

Cynhelir yr oedfaon am 10 a 5 o'r gloch.

Ysgol Sul y plant a'r ieuenctid am 10 o'r gloch.

Ysgol Sul i oedolion ym Methlehem, Llandre am 2 o'r gloch.

Yn dilyn oedfa'r bore, mae gwahoddiad cynnes i bawb gymdeithasu dros gwpanaid o de neu goffi – yr elw at gronfa'r adeiladau.

### *Mynwent y Garn*

Diolchwn i bawb sydd eisoes wedi cyfrannu cyfanswm o £1,895 tuag at y gost o £3,950 i gyrbio llwybrau'r fynwent.

Gellir gweld y rhesr yn y ddau gyntedd ac yn festri'r Capel.

Gobeithiwn orffen y gwaith yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Bydd yn help mawr i gael y fynwent i edrych yn daclus.

Eddie Jones

(Goruchwyliwr y Fynwent)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 14 Mawrth i:


Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel
(828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn
(828662)
Marian_Hughes@btinternet.com

# GAIR O'R GARN

CYLCHLYTHYR EGLWYS Y GARN, BOW STREET

Rhif 12
Calan 2004



***Myfi yw goleuni'r byd***

*Gweinidog*
Parch R W Jones
Haddef
6 Maes Afallen
Bow Street
(01970 828006)

*Ysgrifennydd*
Mr Eddie Jenkins
Eryl
Llandre
Bow Street
(01970 828147)

## *Gair gan y Gweinidog*

Mae yna rywbeth am y Nadolig sydd yn gwneud i rywun gofio; mae hynny'n cael ei ddangos yn amlwg yn yr holl gardiau sy'n cael eu hanfon, yn aml at bobl nad ydym yn meddwl llwer amdanynt weddill y flwyddyn. Cofio wnaf innau'r awr ar drothwy'r Ŵyl, a'r cofio'n troi'n ddiolchgarwch. Rwyf yn amharod i enwi neb rhag ofn imi adael enw allan, ond mae bywyd yr Eglwys yn bosibl oherwydd fod pobl yn barod i roi o'u hamser, talent ac egni mewn gwasanaeth, a'r gwasanaeth hwnnw i'r Garn yn gorlifo mewn haelioni i gyffwrdd y gymdeithas fwy y tu allan.

Ond, rydym yn byw mewn amseroedd sy'n newid, ac o'r herwydd, mae'r pwysau'n cynyddu. Apeliaf felly am fwy o Aelodau i roi ysgwydd dan y baich, rhag i'r pwysau fynd yn ormod i'r rhai sy'n ymdrechu.

Mae ein cofion gyda'r rhai sydd heb fod yn dda eu hiechyd, a dymunaf iddynt hwy, fel i'r Aelodau i gyd, Nadolig llawen a bendithiol.

Gyda'm cofion cywiraf,

*Robert W Jones*

## *Defosiwn*

Y dydd o'r blaen, roeddwn wedi galw heibio rhyw wraig, ac yn ystod y sgwrs, meddai, 'Y noson o'r blaen, pan oeddwn yn mynd â'r ci am dro, fe gefais brofiad arbennig. Gan mai ar hyd ffordd gul, wledig y cerddwn, ffordd sy'n aml yn cael ei defnyddio gan beiriannau fferm, roeddwn, fel y gwnaf bob tro, yn edrych ar y ffordd a lle y rhown fy nhraed. Am ryw reswm, fe edrychais i fyny, ac yn yr awyr roedd seren fawr; roedd hi mor ddisglair fel y meddyliais yn syth am seren Bethlehem!'

Gofynnais iddi ai'r blaned Mawrth a welodd, gan fod honno wedi bod yn agos i'r ddaear ers rhai misoedd – yn nes nag y mae wedi bod ers blynyddoedd meithion ac yn nes nag y bydd am genedlaethau i ddod, yn ôl a ddeallaf. Doedd hi ddim wedi clywed am hynny.

A hithau wedi cerdded y ffordd honno am fisoedd lawer, roedd hi wedi colli llewyrch y seren gan fod ei holl sylw ar ei thraed. Trist! Tristach fyth i ni fyddai eto gerdded ffordd dathlu'r Nadolig yn edrych gymaint o gwmpas ein traed nes methu gweld golau Seren y Datguddiad Dwyfol.

O na welem ni olau—ei seren
A prysuro'n camau
I Fethlem, i roi'n gemau
O'i flaen Ef i'w lawenhau. (O M Lloyd)

Gair olaf y wraig am y digwyddiad oedd, ' Y tro nesaf, mi gadwa i lygaid yn agored am y seren!'

Daeth y Gweithgor i'r casgliad bod yn rhaid adnabod seiliau'r ffydd cyn y gellir adeiladu ar gyfer y dyfodol. Y seiliau hynny yw:

⇒ **Ffydd** – Ffydd mewn person yn hytrach na dogma

⇒ **Addoli –** Sylweddoli'n llawn rym gweddi

⇒ **Gweinidogaeth –** Yr angen i weld ffydd ar waith

⇒ **Tystiolaeth –** Crefydd yn rhywbeth byw ac i'w fyw

⇒ **Cariad** – Duw, cariad yw.

[Roedd yr ystyriaethau wedi'u cynorthwyo gan gyflwyniadau'r Parch Ifan Roberts a'r Bnr Walford Gealy]

Y nod ar gyfer y dyfodol yn **<u>lleol</u>** fydd:

- Cymuned o gariad
- Addoli cyson
- Trafodaeth agored
- Grŵp gweddi
- Ysgol Sul
- Digwyddiadau cymdeithasol
- Cylch o ofal bugeiliol
- Ymwybyddiaeth o seiliau ffydd
- Ffydd ar waith
- Cymuno rheolaidd
- Grŵp ieuenctid
- Cyfarfodydd achlysurol

Byddai i **<u>Ofalaeth / Dosbarth</u>** swyddogaeth allweddol bwysig:

- Tîm dan ofal gweinidog
- Gweithio cydenwadol
- Panel Ysgol Sul
- Cyngor ar addoli a gweddïo di-weinidog
- Cylch croeso
- Panel Pobl Ifanc

Cyfrifoldeb yr **Henaduriaeth** fyddai:

- Cydlynu timau gofalaethol
- Cynnal Safle ar y We
- Rhannu enghreifftiau da.
- Rhoi cyngor ac arweiniad proffesiynol
- Ymgyrchu i ddenu addolwyr newydd

Penderfynodd yr Henaduriaeth dderbyn yr egwyddorion, gan ofyn i'r Gweithgor ymestyn y drafodaeth i Ddosbarthiadau, Gofalaethau ac Eglwysi'r Henaduriaeth yn ystod y misoedd nesaf.

Mae dyfodol Achos Crist dan fygythiad os nad eir ati i gynllunio'n effeithiol i'r dyfodol. Mae'n ymwneud â phob un ohonom sy'n arddel ein crefydd ... 'nawr yw'r amser i ddangos grym ein harddeliad.

DGH

## Patrwm y dyfodol o fewn yr Henaduriaeth

Nos Fercher, Rhagfyr 6ed 2003, bu Gweithgor a fu'n ystyried patrwm darpariaeth y dyfodol yn cyflwyno eu casgliadau i Henaduriaeth Gogledd Aberteifi. Roedd y Bugail a dau o swyddogion Eglwys y Garn yn aelodau o'r Gweithgor.

Taith fu'r trafodaethau dros y naw mis diwethaf i aelodau'r Gweithgor, wrth iddynt eu holi eu hunain yn ddwys ynglŷn â sylfeini eu credo fel Cristionogion yn y gymdeithas a'r byd sydd ohoni heddiw, ac edrych i'r dyfodol.

Y nod a osodwyd gan y Gweithgor yw:

**Ailennyn, o'r gwreichion, y fflam ysbrydol a ddaw â bywyd newydd i Eglwys Iesu Grist yng ngogledd Ceredigion.**

Pwysleisir yr her a'r gobaith sydd yn ein hwynebu wrth i ni edrych i'r dyfodol, a cheisio darparu ar gyfer y cenedlaethau a ddaw drwy adeiladu ar y gyfundrefn a'r adnoddau sydd eisoes ar gael. Sylweddolir nad cynllunio ar gyfer y 5 mlynedd nesaf sydd ei angen, ond ar gyfer y genhedlaeth nesaf mewn gwirionedd.

Byddai wedi bod yn hawdd bodloni ar awgrymu mai lleihau nifer y capeli oedd ei angen, gan adlewyrchu'r tueddiad digalon o drai yn niferoedd aelodau a chynulleidfa. Ymhen 20 mlynedd, efallai mai dim ond traean yr aelodau presennol fydd yn parhau yn aelodau, gan fod 70% o aelodau'r Henaduriaeth dros ganol oed a bydd y cyfartaledd oedran yn uwch eto mewn dau ddegawd. Yn y Garn, gellid darogan mai tua dwy ran o dair o'r aelodaeth bresennol fyddai nifer yr aelodau – eithaf cryf o ystyried y byddem yn gweld tranc nifer o gapeli llai yn ystod y cyfnod.

Aeth y Gweithgor ati i geisio canfod gwendidau a chryfderau'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd, a chasglu barn carfanau o aelodau, yn eu plith ieuenctid o'r Garn. Bu eu sylwadau hwy yn dra gwerthfawr wrth geisio deall safbwynt y genhedlaeth iau parthed y grefydd Gristnogol ac addoli.

Adlewyrchwyd amheuon ac ansicrwydd y rhelyw o'r aelodau, a chafwyd apêl am eglwys sy'n llawer mwy agored i farn a thrafodaeth ac sy'n estyn gwasanaeth a chymwynas i'r gymuned leol.

**Y casgliadau anochel**

- Nid yw'r aelodaeth bresennol yn mynd i allu newid y sefyllfa; ni fydd digon o aelodau.
- Nid yw'r ateb yn mynd i ddod o resymoli adeiladau.
- Rhaid dychwelyd at SEILIAU FFYDD.

## Ionawr

| | |
|---|---|
| **4** | Y Parch Elwyn Pryse<br>Y Parch Lewis W Daniel |
| 7 | Te misol am 2.30 o'r gloch<br>Llinos Dafis yn sôn am 'Homestart' Ceredigion |
| 8 | Cwrdd Gweddi dechrau'r flwyddyn am 7 o'r gloch |
| 9 | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth am 7.30 o'r gloch |
| **11** | Dr Rhidian Griffiths |
| 14 | Grŵp Help Llaw am 2.30 o'r gloch |
| 16 | Y Gymdeithas Lenyddol am 7.30 o'r gloch<br>'Fy newis i' – Panel lleol |
| **18** | Bugail – Cymun yn oedfa'r hwyr |
| 23 | Pwyllgor Swyddogion am 7 o'r gloch |
| **25** | Dr Terry Edwards<br>Parch Pryderi Ll Jones |



Cofiwch am yr wylnos am 11.30 o'r gloch ar noson olaf y flwyddyn – cyfle i groesawu'r flwyddyn newydd mewn addoliad a myfyrdod, dan arweiniad ein Bugail.

Croeso cynnes i bawb

## Chwefror

**1** Parch J R Jenkins

4 Te misol am 2.30 o'r gloch
Eric Harries – Teithiau Bosnia

**8** Parch T J Irfon Evans

**15** Bugail – Cymun yn oedfa'r bore

**22** Parch Pryderi Ll Jones
Parch R W Jones (Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre)


27 Y Gymdeithas Lenyddol
Dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni John Morris, Llanrhystud

28 Diwrnod derbyn Bwyd i Bosnia

Gwasanaeth i gyflwyno'r Beibl Cymraeg Newydd, Argraffiad Diwygiedig, yn Seion, Aberystwyth am 2 o'r gloch.

**29** Parch J Elwyn Jenkins

### *Te Misol*



Croeso i bawb i wrando ar sgwrs ddifyr a mwynhau paned ar brynhawn Mercher cynta'r mis am 2.30 o'r gloch.

Mae croeso arbennig i aelodau holl gapeli'r ofalaeth a'r fro ymuno â ni. Ffoniwch Marian Jenkins ar 828147 os bydd arnoch angen cludiant.

## Mawrth

3 Te misol am 2.30 o'r gloch
Hanes Llanerchaeron

**7** Parch A Wynne Edwards

**14** Parch Stanley Lewis

19 Y Gymdeithas Lenyddol
Siaradwr gwadd: Yr Athro Gruffydd Aled Williams, Dole

**21** Bugail – Cymun yn oedfa'r hwyr
Cinio Bara a Chaws tuag at Gymorth Cristnogol

**28** Parch Tudor Davies
Parch R W Jones

### Grŵp Help Llaw



- Cafwyd cefnogaeth ardderchog i Operation Christmas Child – 36 o focsys a £100 o nawdd. Diolch o galon.
- Cyfrannwyd £73, sef gwerthiant cardiau Nadolig, i gronfa Tŷ Gobaith.
- Ddechrau Rhagfyr, cynhaliwyd stondin deganau er budd Crossroads, a chyflwynwyd rhodd o £100 i'r elusen yma.
- Diwrnod pwysig yn ein calendr erbyn hyn yw diwrnod derbyn Bwyd i Bosnia. Nodwch y dyddiad – Sadwrn, 28ain Chwefror 2004.
- Yn y cyfamser, cofiwch fod pob stamp a ddaw i'ch cartref dros yr Ŵyl yn hwb i waith OXFAM. Dywedwch hyn wrth eich ffrindiau a'ch cymdogion. Diolch.
- Cyfarfod nesaf y Grŵp Help Llaw – prynhawn Mercher, 14 Ionawr am 2.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.